2.5 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn gyfle i holi'r swyddogion perthnasol am ddarganfyddiadau archwiliadau diweddar gan nad yw amser yn caniatáu hynny yn y Pwyllgor.

2.6 Penderfynwyd i drafod y risgiau yn gyffredinol oherwydd bod sawl risg a adnabuwyd yn berthnasol i'r tri cartref oedd dan sylw a chydnabuwyd gan y Pennaeth Cynorthwyol Oedolion, Iechyd a Llesiant bod cynnwys yr adroddiadau yn gyson ar y cyfan gyda cartrefi gofal eraill sydd dan reolaeth y Cyngor.

2.7 Eglurodd y Rheolwr Archwilio mai materion rheolaethol sydd yn bennaf wedi derbyn sylw, ac nid yw'n adlewyrchiad o safon y gofal a roddir i'r preswylwyr sydd bob amser yn derbyn blaenoriaeth.

2.8 Trafodwyd bwysigrwydd cadw Datganiad o Ddiben y cartrefi'n gyfredol. Mynegodd Is-Reolwr Plas Pengwaith y dylai bod y Datganiad o Ddiben yn cael ei ddiweddaru yn dilyn unrhyw newid o fewn y cartref. Ategodd y Pennaeth Cynorthwyol Oedolion, Iechyd a Llesiant y bydd Datganiad o Ddiben pob cartref yn derbyn sylw i sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb.

2.9 Cafwyd trafodaeth a'r camau ymarferol a ellir eu cymryd i sicrhau bod y llyfr arwyddo i fewn ac allan yn cael eu cwblhau gan ymwelwyr a phwysigrwydd bod hynny'n cael ei wneud ar bob achlysur i sicrhau diogelwch. Eglurodd Rheolwr Llys Cadfan ac Is-Reolwr Plas Pengwaith na all staff y cartrefi fonitro pryd mae ymwelwyr yn gadael y safle oherwydd eu bod yn rhoi gofal i breswylwyr. Cytunwyd y byddai y llyfr yng nghartref Plas Pengwaith yn cael ei ail-leoli.

2.10 Trafodwyd y diffygion a adnabuwyd pan ymwelwyd â'r cartrefi o safbwynt rheoli a chofnodi meddyginiaeth. Rhoddwyd eglurhad gan Rheolwr Llys Cadfan ac Is-Reolwr Plas Pengwaith am yr amrywiadau a ddarganfuwyd yn ystod ymweliad Archwilio Mewnol. Pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio bwysigrwydd sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei gofnodi a'i reoli'n briodol yn enwedig wrth ystyried meddyginiaeth megis "Apixaban".

2.11 Mynegodd swyddogion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod nifer o'r gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol yn deillio o ddiffyg adnoddau staffio a'r pwysau a roddir ar Reolwyr Cartrefi o ganlyniad i hynny. Cafwyd trafodaeth dros y rhesymau dros y trafferthion i recriwtio a dargadw staff a'r heriau i'r dyfodol os na fydd newidiadau. Eglurodd Is-Reolwr Plas Pengwaith ei bod yn ddibynnol ar gyflogi staff asiantaeth yn enwedig ar gyfer gweithio penwythnosau.

2.12 Ymhelaethwyd bod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn dilyn newidiadau i'r strwythur tâl yn dilyn colli'r hawl i chwydd-daliad (*enhanced pay*) ar benwythnosau gyda nifer o staff yn dewis gadael eu swyddi am delerau gwell yn y maes iechyd a thu hwnt. Mae'r prinder i recriwtio staff, absenoldebau salwch, methiant i droi fyny ar gyfer shifft a'r angen i fynychu hyfforddiant a goruchwyliaeth yn gorfodi'r cartrefi i gyflogi staff asiantaeth sydd ar gyfraddau llawer uwch. Ymholodd y Rheolwr Archwilio os yw'r newid yn y drefn o dalu chwydd-daliad ar benwythnosau er creu arbedion wedi profi yn llawer fwy costus i'r Cyngor. Cytunodd swyddogion yr Adran bod eu costau ers cyflwyno'r drefn newydd yn llawer uwch.

2.13 Cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol Oedolion, Iechyd a Llesiant y byddai'n fuddiol i gynnal adolygiad ar y cyd ag Archwilio Mewnol i'r gwariant ar staff asiantaeth a'r goblygiadau ariannol o gynnig tâl gwell i staff Cyngor Gwynedd yn hytrach na talu asiantaeth. Yn ddamcaniaethol, bydd hyn yn cadw staff dan reolaeth Cyngor Gwynedd, lleihau trosiant a chyflogi pobl leol a chynnal darpariaeth o wasanaeth Cymraeg. Cytunodd aelodau'r Gweithgor bod y sefyllfa staffio yn y maes gofal yn argyfyngus erbyn hyn a bod angen ei drin fel maes ar wahân i wasanaethau eraill y Cyngor, a'r gobaith yw annog Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor i ystyried gwell telerau i'r gofalwyr, wedi'i ariannu gan yr arbedion fydd yn deillio o leihau y defnydd o staff asiantaeth.

2.14 Mae rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant yn profi'n broblemus oherwydd yr angen i dalu staff ychwanegol i gyflawni eu sifftiau sydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau. Yn ogystal, eglurwyd bod cofrestru staff ar gyfer mynychu hyfforddiant, e.e. codi a thrin, yn broblemus oherwydd nifer cyfyngedig y sesiynau hyfforddiant sydd ar gael.

2.15 Eglurodd y swyddogion bod cynnal goruchwyliaeth un-i-un yn broblemus ar adegau a hynny eto oherwydd prinder staff.

2.16 Ymholodd y Rheolwr Archwilio os oedd cynlluniau olyniaeth mewn lle yn y cartrefi. Eglurwyd gan y swyddogion bod rhai swyddi wedi eu hail arfarnu i lefel uwch yn ddiweddar ond bod rhai staff yn dewis peidio ymgeisio am swyddi uwch sydd â chyfrifoldebau uwch ac y gall hyn greu problemau parhad gwasanaeth yn y dyfodol petai uwch swyddogion yn gadael eu swyddi.

**2.17 Diolchwyd i'r Swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau sydd eisoes yn weithredol a'r trefniadau arfaethedig sydd ar y gweill i liniaru'r risgiau a adnabuwyd.**